

# Is-ddeddfau arfaethedig newydd ar gyfer pysgota â gwialen am eogiaid a brithyllod y môr ar gyfer afon Hafren yng Nghymru

## Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn adolygu statws stociau eogiaid a brithyllod y môr yn afon Hafren ac yn argymhell cyflwyno rheoliadau pysgodfa priodol, sy'n adlewyrchu statws perygl y stoc cyfredol, ac mae eu hangen i ddiogelu capasiti atgenhedlu y stociau hyn. Mae'n ddehongliad i Gymru o'r achos technegol a luniwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gosod amcan cyffredinol ar gyfer stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru: -

***“Diogelu cynaliadwyedd ein cyflenwad naturiol o stociau eogiaid a brithyllod y môr gwyllt yng Nghymru drwy gymhwyso'r arferion gorau o ran gwyddoniaeth a rheolaeth.”***

Mae'r achos technegol y mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i fabwysiadu ar gyfer afon Hafren yng Nghymru yn disgrifio statws stociau afon Hafren, yn ystyried materion yn ymwneud â gorbysgota stociau eogiaid a brithyllod y môr ac yn nodi'r opsiynau ar gyfer rheoli cynaliadwy.

Dros y degawdau diwethaf, mae statws y rhan fwyaf o'n stociau salmonidau mudol yng Nghymru wedi dirywio: nid yw afon Hafren yn eithriad. Mae yna amrywiaeth gymhleth o ffactorau sy'n cyfrannu at hyn, gan gynnwys llai o bysgod yn goroesi yn y môr, pwysau ar gynefinoedd dŵr croyw (gan gynnwys ansawdd dŵr) ac ymdrech bysgota anghynaliadwy hanesyddol ar y moroedd mawr a physgodfeydd ataliol eraill, gan gynnwys rhai pysgodfeydd mewn dyfroedd cartref.

Mae datrysiaid CNC yn cwmpasu amrywiaeth eang o fesurau arfaethedig i fynd i'r afael ag achosion niferus a chymhleth y broblem hon a sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ([Darllenwch fanylion y mesurau hyn yng 'Nghynllun Gweithredu Eogiaid a Brithyllod y Môr, 2020' CNC](#)). Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn rhan annatod o'r gyfres hon o fesurau oherwydd byddent yn cadw adnoddau bridio hanfodol wrth fynd i'r afael â bygythiadau eraill perthnasol i gynefinoedd.

Ein barn yw y gall stociau gael eu pysgota pan maent yn gynaliadwy, ond nes eu bod yn gynaliadwy, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y pwysau'n cael eu cymedroli neu eu dileu er mwyn cyflawni'r nod hwn. Yn unol â'r sefyllfa hon, gwnaethom gyflwyno is-ddeddfau 'Cymru Gyfan' a 'Dyfrdwy a Gwy Trawsffiniol (yng Nghymru)' a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2020, a mandadu rhyddhau'r holl eogiaid a ddelir â gwialen a rhwyd yng Nghymru.

Mae achos technegol Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi'r sefyllfa a'r opsiynau ar gyfer rheolaethau pysgota diwygiedig i ddiogelu stociau eogiaid a brithyllod y môr yn

afon Hafren ac yn cyflwyno cynigion casgliadol ar gyfer is-ddeddfau newydd i reoleiddio pysgota.

Rydym yn cydnabod yr angen am ddull hollol integredig ar gyfer dalgylchoedd ein hafonydd ffiniol. Mae CNC yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd ymarferol a synhwyrol. Er bod CNC yn arwain ar reoli pysgod sy'n dychwelyd i afonydd i silio yn afonydd trawsffiniol Dyfrdwy a Gwy, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain ar reoli afon Hafren.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal ymgynghoriad cyfatebol ar y rhannau o afon Hafren sydd yn Lloegr. Mae CNC wedi mabwysiadu achos technegol Asiantaeth yr Amgylchedd fel y dystiolaeth i'w defnyddio i gefnogi is-ddeddfau arfaethedig ar afon Hafren yng Nghymru. Yn y ffordd hon, rydym yn ceisio sicrhau bod trefniadau integredig a chyson yn cael eu gweithredu ar draws y dalgylch cyfan.

Mae angen diweddarau rheoliadau blaenorol a oedd yn cynnwys cyfyngiadau amser ar gyfer pysgota am eogiaid yn afon Hafren yng Nghymru i sicrhau bod stociau eogiaid yn cael eu diogelu'n ddigonol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y pysgodfeydd hynny sy'n parhau i orbysgota'r stociau hyn yn gwneud hynny mewn ffordd gynaliadwy sy'n cefnogi adfer stociau.

Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig newydd yn disodli'r Is-ddeddfau Brys cyfredol sy'n rhoi mandad i ryddhau'r holl eogiaid yn yr Hafren sy'n cael eu dal â gwialen a gwahardd pysgota ag abwyd cyn 16 Mehefin sydd wedi bod ar waith ers 1 Mawrth 2021.

Byddai'r cynigion yn cyflwyno cyfyngiadau sy'n cyfateb yn eang i ddull is-ddeddfau 'Cymru Gyfan' a gyflwynwyd yn dilyn Ymchwiliad Lleol yn 2019 ([darllenwch ganlyniad yr Ymchwiliad Lleol 'Is-ddeddfau Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru Gyfan'](#)) ac is-ddeddfau 'Dyfrdwy a Gwy Trawsffiniol (yng Nghymru)' a gyflwynwyd yn 2020. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ryddhau'r holl eogiaid, yn gosod cyfyngiadau ar bysgota abwyd a gofynion i ddefnyddio bachau heb adfachau, bachau o feintiau diffiniedig a chyfyngu ar y nifer a'r math o fachau ar droellwyr a phlygiau er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o'r pysgod sy'n cael eu rhyddhau yn goroesi.

Mae'r mesurau arfaethedig ar gyfer afon Hafren, a fabwysiadwyd ar gyfer afon Hafren yng Nghymru gan CNC, wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau y gall pysgota â gwialen barhau mewn ffordd gynaliadwy a rhoi'r cyfle gorau i adfer stociau eogiaid a diogelu stociau brithyllod y môr. Mae'r mesurau arfaethedig yn cydnabod ac yn ystyried y ffaith y gall y defnydd o fathau penodol o ddulliau pysgota â gwialen a gêr olygu bod nifer cynyddol o bysgod yn marw yn dilyn pob sesiwn dal a rhyddhau, gan leihau nifer yr eogiaid sy'n dychwelyd i'r afon i silio.

Mae CNC wedi dod i'r casgliad, yng ngoleuni statws a diffygion silio stociau eogiaid a brithyllod y môr yn afon Hafren y dywedir eu bod yn anghynaliadwy o ganlyniad gyda risg o ddirywiad parhaus i lefelau stoc anniogel, fod y cynigion yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol.

## Tystiolaeth

Rydym wedi ystyried dwy brif ffynhonnell o dystiolaeth wrth ddod i gasgliad o ran yr opsiwn rydym yn ei ffafrio ar gyfer rheoli newid:-

1. Statws stociau eogiaid a brithyllod y môr sy'n llawn dwf
2. Statws eogiaid ifanc

## Eogiaid

Mae Terfyniadau Cadwraeth yn gwasanaethu fel pwynt cyfeirio neu 'derfyn' isod sy'n golygu bod gostyngiad yn niferoedd y silwyr yn debygol o olygu gostyngiad sylweddol yng nghynhyrchiad leisiaid.

Mae gweithdrefnau cydymffurfiaid yn gofyn bod lefelau silio yn uwch na'r Terfyniad Cadwraeth mewn pedair blynedd allan o bump (h.y. 80% o'r amser) er mwyn i stoc fodloni ei 'Amcan Rheoli' (ARh). Mae'r 'Targed Rheoli' cysylltiedig (pwynt cyfeirio 'targed') yn diffinio'r lefel stoc gyfartalog y mae ei hangen i gyflawni hyn.

Caiff amcangyfrifon eu creu'n flynyddol a chânt eu profi am gydymffurfiaeth yn flynyddol. Mae sefyllfa'r llinell dueddiad a'i chyfyngiadau hyder mewn perthynas â'r Terfyniad Cadwraeth yn penderfynu statws risg y stoc.


Mae poblogaethau eogiaid afon Hafren wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf ac mae nifer yr wyau yn yr afon bellach yn is na'r Terfyniad Cadwraeth (Ffigur 1). Ystyrir ei bod yn angenrheidiol cyrraedd y targed stoc hwn er mwyn cynnal y boblogaeth ar lefel iach a chynaliadwy. Mae stoc eogiaid afon Hafren wedi methu â chyrraedd ei Derfyniad Cadwraeth yn rheolaidd ac mae bellach yn cael ei ystyried "Mewn Perygl Mae'n Debyg" a rhagfynegir y bydd yn parhau fel hyn mewn pum mlynedd (Ffigur 2).

Mae'r ffigur cyfredol o ran nifer yr wyau gyfwerth ag 875 o bysgod benyw llawn dwf sy'n silio a nifer y benywod sy'n silio sydd gyfwerth â'r Terfyn Cadwraeth yw 1720: felly mae hyn yn dynodi diffyg o 845 o bysgod benyw sy'n silio yn 2019.


Er mwyn cynnig rhagor o ddiogelwch i'r stoc, gwnaethom osod Targed Rheoli sy'n gofyn, yn y tymor hir, y dylai'r stoc ragori ar y Terfyniad Cadwraeth yn 4 o'r 5 mlynedd nesaf o leiaf: dyma'r Amcan Rheoli. Roedd asesiadau stoc eogiaid afon Hafren wedi bod yn gwella ers 2017, ac roeddynt yn cael eu hystyried "Ddim Mewn Perygl Fwy na Thebyg" ar yr adeg honno, ond mae'r gostyngiadau yn yr asesiadau stoc yn 2018 a 2019 wedi golygu bod yr afon bellach yn y categori "Mewn perygl yn ôl pob tebyg" ac mae'r duedd deng mlynedd yn dirywio.

Cyflwynir y manylion o ran nifer yr wyau a ddyddodir yn flynyddol, Terfyniad Cadwraeth a Tharged Rheoli ar gyfer stociau eogiaid afon Hafren am y deng mlynedd diwethaf yn Ffigurau 1 a 2 isod. Mae'r asesiad stoc yn dynodi bod stoc eogiaid afon Hafren wedi rhagori ar ei Derfyniad Cadwraeth dair gwaith yn unig yn ystod y deng mlynedd diwethaf, gan ddirywio ers 2015, a bellach mae'n cyrraedd ychydig dros 50% o'r Terfyniad Cadwraeth yn 2019 yn unig.

Ffigur 1 Amcangyfrifon o nifer yr wyau mewn perthynas â'r terfyniad cadwraeth a'r targed rheoli ar gyfer afon Hafren rhwng 2010 a 2019.



Ffigur 2 Asesiad cydymffurfiaeth silio eogiaid afon Hafren 2019.



Allwedd i'r graff yn ffigur 2

•	Annual egg deposition estimates
—	20 <sup>th</sup> Percentile trend line
—	Conservation Limit
■	Upper and lower boundaries of the Bayesian Credible Interval

## Brithyllod y môr

Mae'r stoc brithyllod y môr yn afon Hafren yn weddol fach, nid oes unrhyw gofnodion hanesyddol o niferoedd sylweddol ac nid oes unrhyw bysgodfeydd yn targedu'r rhywogaeth hon. Er bod lefel y stoc yn isel, nid ydym yn dymuno gweld unrhyw gynnydd mewn pysgota brithyllod y môr gan bysgodfeydd Hafren ar yr adeg hon. Am y rheswm hwn, a hefyd i osgoi unrhyw achos o ddrysu rhwng rhywogaethau, mae brithyllod y môr wedi cael eu cynnwys yn y rheoliadau arfaethedig.

## Salmonidau ifanc

Mae dwysedd poblogaeth cyfartalog eogiaid ifanc a gofnodwyd yn arolygon pysgodfeydd yn nalgylch Hafren uwch ar eu lefelau isaf yn arolwg 2019. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu niferoedd llai o eogiaid silio llawn dwf yn y ddwy flynedd flaenorol ac mae hefyd yn awgrymu y gall llai o leisiaid gael eu cynhyrchu yn 2020 ac yn 2021 gan olygu y bydd llai o eogiaid llawn dwf yn dychwelyd yn 2022 ac yn 2023.

Mae dwysedd silod brithyllod (0+) ar gyfartaledd ar safle Hafren uwch yn dueddol o fod yn isel, yn amrywio o un silod mân i bob can metr sgwâr o ffrwd.

Mae dwysedd gleisiaid brithyll (>0+) ar gyfartaledd hefyd wedi bod yn weddol isel ar draws dalgylch Hafren uchaf yn yr arolygon hyn, ac anaml iawn yr oedd yn rhagori ar dri gleisiad brithyll i bob metr sgwâr o ffrwd. Er bod nifer isel o frithyllod ifanc wedi cael eu cofnodi dros yr wyth mlynedd diwethaf, ymddengys bod y niferoedd yn weddol gyson.

## Ein dull gweithredu

Ein nod ar gyfer y stociau yn y categori "Mewn perygl yn ôl pob tebyg" yw eu hadfer i'r categori "Ddim mewn perygl yn ôl pob tebyg" o fewn pum mlynedd. Nid yw parhau i ladd eogiaid gan bysgodfeydd mewn sefyllfaoedd o'r fath, a chyda diffygion stociau silio mor fawr, yn gymesur â'n nod o wella statws stoc, yn enwedig pan fo'r stoc yn parhau i ddirywio.

Gall niferoedd gweddol fach o bysgod fod yn hanfodol er mwyn helpu i adfer stoc a nodir y ceir budd crynodol dros amser. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu stociau silio er mwyn rhoi'r cyfle gorau posib i stociau adfer.

Os nad yw is-ddeddfau diogelu ar waith o dymor 2022 ymlaen, yna byddai llai o ddiogelwch o ran stociau eogiaid a brithyllod y môr agored i niwed yn afon Hafren (yng Nghymru) pan fydd yr is-ddeddfau brys cyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth 2022.

Wrth werthuso opsiynau rheoli, dylid rhoi blaenoriaeth i gadwraeth a chynaliadwyedd adnoddau eogiaid a brithyllod môr gan ddilyn yr egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r cyd-destunau wedi'u gosod yng nghyd-destun cynyddu niferoedd yr eogiaid sy'n dod i'r afon i silio a hyrwyddo adferiad stoc tuag at wydnwch a chynaliadwyedd gwell.

Petai'r cynigion yn cael eu cadarnhau, byddent yn gweithredu is-ddeddfau sy'n gofyn am bysgota dal a rhyddhau statudol ar gyfer yr holl eogiaid a brithyllod y môr sy'n cael eu dal â gwialen neu lein ar afon Hafren (yng Nghymru) drwy'r tymor. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer afon Hafren yn Lloegr.

## Ein cynigion

Mae CNC yn cynnig ceisio cadarnhad is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen ar afon Hafren yng Nghymru. Rydym yn cynnig y mesurau canlynol o'r dyddiad cadarnhau nes 31 Rhagfyr 2031, dyddiad a ddewiswyd i gyd-fynd â dyddiadau dalgyrch Lloegr.

### **Mae CNC bellach yn ceisio barn ar y cynigion hyn.**

Dyma'r opsiynau rheoli pysgodfa arfaethedig ar gyfer pysgodfeydd gwialen afon Hafren: -

- camau dal a rhyddhau gorfodol ar gyfer yr holl eogiaid a brithyllod y môr sy'n cael eu dal â gwialen a lein;
- gweithredu is-ddeddfau sy'n rheoli dulliau pysgota, sef: -
  1. gwahardd pysgota abwyd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr;
  2. y defnydd o fachau heb adfachau (neu adfachau wedi'u tynnu) yn unig ar gyfer pysgota â gwialen am eogiaid a brithyllod y môr;
  3. y defnydd o fachau unigol, heb adfach gydag agoriad bachyn uchaf heb fod yn fwy na 13mm i'w defnyddio gydag unrhyw offer llithio a throellwyr artiffisial a ddefnyddir i dargedu eogiaid a brithyllod y môr;
  4. dim mwy na 3 bachyn sengl, heb adfachau gydag agoriad bachyn o 13mm ar y mwyaf i'w gosod i blwg symudol neu gymalog i'w defnyddio i dargedu eogiaid neu frithyllod y môr;
  5. bachau heb adfachau sengl, dwbl neu driphlyg i'w defnyddio ar y cyd â phryfyn ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr. Ni fydd agoriad bachyn unrhyw fachyn dwbl neu driphlyg sy'n cael eu defnyddio ar y cyd â phryfyn artiffisial yn fwy na 7mm, ac 13mm yn achos bachau sengl.

## Eich ymateb

Hoffem glywed eich barn am ein cynigion a'ch gwahodd i gyflwyno'r rhain gan ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi'i chynllunio at y diben sydd ar gael drwy ein canolfan ymgynghori.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad ar is-ddeddfau arfaethedig afon Hafren yng Nghymru drwy'r ddolen hon <https://ymgyngghori.cyfoethnaturiol.cymru/evidence-policy-and-permitting-tystiolaeth-polisi-a-thrwyddedu/is-ddeddfau-hafren-2021>

Gallwch ofyn am gopïau o'r dogfennau drwy e-bostio  
[Fisheries.wales@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:Fisheries.wales@naturalresourceswales.gov.uk)

Neu drwy ysgrifennu at:

David Mee  
Is-ddeddfau Afon Hafren Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Maes Newydd  
Llandarsi  
Castell-nedd Port Talbot  
SA10 6JQ